Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID. GWIRIONEDD. CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 16. Rhif 5.] MAI, 1916. [Pris 2c

CYNNWYSIAD.

Myfyrdodau mewn Hanfodion.

Hanes Capel y Cribin. Parch. J. Islan Jones, M.A.

"Ysiafell a Profwyd" (Anthropos).

Elfennau Gwir Lwyddiant (Samicol).

Yr Engine ar Wyllt.

Priodasau.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.



Y GWIRIONEDD

A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac eychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 15 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Geiriadur Newydd Spurrell

Cymraeg a Saesneg. Argraffiad Diweddaraf.

Dan olygiaeth J. BODVAN ANWYL.

Wedi ei helaethu a'i adnewyddu.

Pris 3/6 nett. Cludiad 3c. y copi.

I'W GAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

CYFRES Y FIL.

Yn cynhwys y cyfrolau canlynol:—

GWILYM MARLES . .	IOLO MORGANWG . . .
MYNYDDOG	CERRIG Y RHYD . . .
ALUN	Dr. OWEN PUGHE . .
SION CENT	GWAITH GLANYGORS .

Pris Swllt. Trwy y Post 1/2.

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

YR • YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1916. [CYF. XVI. RHIF 5.

MYFYRDODAU MEWN HANFODION.

Y MAE hanes y genedl Iuddewig yn gyfoethog o enwau dynion mawr. Y mae tri o honynt, pa fodd bynag, fel y credaf, yn sefyll ym mhell uwchlaw y lleill. Y tri hyn ydynt—

MOSES, AWDWR YR AIL RAN O ESAIAH, A PHAUL.

Gadawaf enw Iesu allan am y rheswm fod ei enw ef uwchlaw pob enw. Ni all neb feddwl am y genedl Iuddewig heb feddwl am Moses ei deddfroddwr. Pe ceisid gan nifer o fyfyrwyr Beiblaidd i enwi y llyfr ardderchocaf yn yr Hen Destament, credaf y pleidleisid yn weddol unfrydol dros y rhan olaf o Esaiah—o'r ddeugeinfed bennod hyd y diwedd. Pe ceisid gennym i enwi'r Iuddew sydd wedi gadael ei ol amlycaf ar y byd dynol, pa enw arall ond eiddo Paul ellid enwi. O'r tri hyn Esaiah yr ail fydd dan sylw yn awr. Nid un awdwr sydd i Esaiah ein Beibl ni, fel y tybid gynt; y mae iddo, o leiaf, ddau. Gan Esaiah yr ysgrifenwyd y rhan gyntaf. Y mae awdwr yr ail ran yn anadnabyddus. Gan nad pwy ydoedd, yr oedd yn ddyn mawr—yn feddyliol a moesol; ie, yn ddyn eithriadol fawr. Y mae llawer dyn o alluoedd mawr, pa fodd bynnag, yn gorfod myned trwy'r byd heb gael un cyfleustra i arddangos ei fawredd. Gorfodir y cyfryw i dreulio eu bywyd mewn dinodedd, a marw heb glod, yn unig am nad oedd eu hamgylchoedd yn ffafriol i ddatblygiad eu galluoedd. Fel y dywed Dafis Castellhywel, yn ei gyfieithad digymar o "Gray's Elegy":

"Yma f'allai caid rhyw Hampden, Doeth, a chalon ddewr o ddur,
A geryddai un gormeswr, Fynai dreisio darn o'i dir;
A rhyw Filtwn, heb ei fawrglod, Mewn dystawrwydd is ein tra'd,
Ac ail Gromwell gwrol, grymus, Rhydd o 'lanas pawb o'i wlad."

Ond bu raid iddynt dreulio eu bywyd dan gudd; a bedd di-glod, gyda'r "garreg arw, a'r ddwy lythyren" yn unig i nodi lle eu gorffwysfa. Eithaf gwir ydyw—fod pob dyn enwog y cofnodir eu henwau ar dudalennau hanes, yn ddyledus am eu clod, nid yn unig i'w galluoedd naturiol, ond hefyd i gyfleusterau ac amgylchoedd eu bywyd; neu, y mae dynion enwog yn gynnyrch eu hoes. Yn debygol, ni fuasai'r Israeliaid wedi ymadael o'r Aifft oni bai i Moses godi yn arweinydd iddynt; ni fuasai Protestaniaeth wedi dod i fodolaeth oni bai am Luther ac ereill; ni fuasai'r caethwas Americanaidd wedi ei ryddhau oni bai am Lincoln; ni fuasai son am y Diwygiad Cymreig oni bai am Rowlands, Llangeitho a'i gyffelyb. Ar y tu arall, yr un mor wir ydyw na fuasai enw Moses mor fyd-adnabyddus oni bai fod y genedl mewn caethiwed gorthrymus yn ei amser ef; ni fuasai son am Luther oni bai am gyflwr moesol isel Eglwys Gatholig ei ddydd; ni fuasai son am Lincoln oni bai i gri dolefus y caethwas ddod i'w glustiau; ac ni fuasai enw Rowlands, Llangeitho wedi dod yn un a gerir gan bob Cymro oni bai am gyflwr pechadurus ei genedl. Yn yr un modd gellir anturio dweyd na fuasai y rhan olaf o Esaiah yn ein Beibl oni bai fod yr awdur wedi ei addfedu i'w ysgrifennu gan orthrymder ei genedl ym Mabilon. O'r gorthrymder hwn y tarddodd y penodau hyn gyda'u cenadwri ogoneddus—cenadwri, nid yn unig i genedl Israel, ond i bob cenedl—i ni, fel i'r Israeliaid—cenadwri gyffredinol.

Beth yw'r Genadwri Hon?

Y mae yn genadwri aml-ochrog iawn; a dim ond astudiaeth drwyadl o'r llyfr fedr ein galluogi i'w gweled yn ei chyfanrwydd. Eithr y mae ei sylfaen yn amlwg iawn. Dyma hi—sefydlogrwydd Duw yng nghanol ansefydlogrwydd pob peth arall. "Gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn," meddai. Sylwer ar y gwelltyn: y fath adeiladwaith gywrain sydd iddo! Wn i ddim sut y mae yn bosibl ameu bodolaeth cynlluniwr holl-berffaith yn ymyl y gwelltyn. Nid yw'r gwelltyn, pa fodd bynnag, er mor gywrain ydyw, ond dros amser byr. Ar ol gwneud o hono ei waith, y mae yn gwywo. Yr un, hefyd, yw tynged y blodeuyn, y mae yntau, ar ol ein swyno a'i brydferthwch, yn diflannu. Dyna fel y mae gyda phob peth—yn natur, yn y byd anifeilaidd, mewn cymdeithas, ym mywyd dyn. Y fath gyfnewidiadau yr â cymdeithas drwyddynt yng nghwrs cyfnod byr o amser! Y mae'r cyfnewidiadau hyn yn ddiderfyn ar waith. Ni fu adeg erioed, mi gredaf, pan y mae'r cyfnewidiadau hyn mor amlwg ag yn yr adeg bresennol. Cymerwn ddaearlen o Ewrop yn ein llaw; yr ydym, efallai, yn hollol gyfarwydd a hi. Gallwn enwi'r gwledydd, desgrifio'r ffiniau rhyngddynt, dweyd eu maintioli, rhif eu pobl, enwau eu brenhinoedd, ac yn y blaen. Eithaf da, y mae hyn i gyd yn ddigon rhwydd. Gadawn i ychydig fisoedd fyned heibio, a phrynwn ddaearlen newydd—oherwydd, yn ol pob tebyg, rhaid fydd inni daflu'r hen ddaearlenni i'r tân neu rywle cyffelyb—a sylwn ar y

gwahaniaeth. Nid yw hyn ond enghraifft o'r cyfnewidioldeb nodwedda bob peth gweledig. Y mae gan y cyfnewidioldeb hwn, ar ei ben ei hun

Ddylanwad a Duedda i Ddyrysu Meddwl

yr hwn na wel ddim arall ond hyn. A phair iddo ofyn—beth yw ystyr hyn oll? Oes yna rywbeth sefydlog yn rhywle? A daw Esaiah yr ail ato gyda'i genadwri, a dywed wrtho, fod Duw yn aros: "gair ein Duw ni," meddai, "a saif byth." Nid oes cyfnewidioldeb ynddo Ef. Nid yw'r cyfnewidiadau a welwn ar bob llaw ond amlygiadau o'i feddwl Ef—y modd y mae Efe yn dwyn ei amcanion i ben. Pe na fyddai cyfnewidiadau, arwydd o ddiffyg bywyd fyddai hynny. Y mae bywyd yn esgor ar gyfnewidiadau. Ond yn a thrwy'r holl gyfnewidiadau fe erys y bywyd Dwyfol yn ddigyfnewid.

Meddwl Gogoneddus yw Hwn.

Y mae yn feddwl cyfoethog o gysur mewn dyryswch, o arweiniad yn nhroion y daith, o ysbrydoliaeth mewn digalondid. Y mae, yn arbennig, yn feddwl annrhaethol werthfawr mewn adeg fel yr un bresennol, pan y mae bron yr oll o Ewrop wedi syrthio i farbariaeth, a phob egwyddor foesol ac ysbrydol, yn ymddangosiadol, wedi eu taflu i'r gwynt. Nid yw'r haul yn diflannu os bydd cwmwl rhyngom ag ef. Nid yw enhuddad amserol o egwyddorion moesol ac ysbrydol yn golygu fod llywodraethwr ein tynged wedi rhoi'r awenau o'i law. Na; y mae Efe yn aros; ac y mae, yn raddol, ond yn sicr, yn dwyn ei ddibenion yn nes i'r pen.

Ellian.

AR Y TROTHWY.—Yr oedd wedi ei glwyfo yn druenus, ac fe wyddai ei fod ar fin cefnu ar y byd hwn. Awstraliad oedd, ond wedi ei eni yn Scotland. Ond yma ar fin marw, yn Abertawe, ac yn mhell o gartref, yr oedd yn bresenol. Ei ddymuniad olaf oedd ar fod y 'Bagpipe' yn chware yn ei angladd! Swnia'n hynod i ni; ond iddo ef, yn ddiameu, yr oedd swn cartref yn y 'Bag-pipe.' I'r Cymro oddicartref byddai 'Hen Wlad fy Nhadau' yn gyffelyb; 'Home, Sweet Home' i'r Sais, a'r 'Wacht am Rhein' i'r Almaenwr. I Jenkins gynt, ar ben Pont Llundain, nid oedd dim melusach na Salmau Iolo! Nid yr un fath linc sydd yn cydio yn mhob un oddi cartref; ond nid oes nemawr neb nad yw linc cartref yn cydio ynddo pan Ar y Trothwy ac mewn gwlad estronol.

HANES CAPEL Y CRIBIN.

(Gan J. Islan Jones.)

SEFYDLWYR YR ACHOS A'U TEULUOEDD.

(*Parhad.*)

Teulu Rhydybenne.

Yr oedd Thomas Jenkins, Rhydybenne, yn amaethwr cyfrifol ac adnabyddus i gylch helaeth; cymerai ran flaenllaw yng nghyfarfodydd y festri yn Ystrad. Ganwyd ef yn 1744. Bu a llaw yn sefydliad Capel y Cribin, ac hefyd yn sefydliad Capelygroes, un-flynedd-ar-ddeg ar ol hynny. Tueddir fi i gredu mai yng Nghapelygroes y teimlai fwyaf o ddyddordeb. Bu iddo ef a'i wraig Deborah dri o blant—dau fab, Jenkin a David, ac un ferch (nis gwn ei henw). Bu Thomas Jenkins farw yn y Glyndu, Hydref 27ain, 1834, yn 90 oed.

Enwir Jenkin Jenkins, mab i'r uchod, fel un fu a llaw yn adeiladu'r capel. Ganwyd ef yn 1774; felly yr oedd yn hogyn 16 oed yr adeg honno. Bu efe a'i wraig Dinah yn byw yn Rhydybenne ar ol i'w dad ymadael a'r lle. Yn niwedd eu hoes aethant hwythau hefyd i fyw i Glyndu, ac yno y bu Jenkin Jenkins farw yn 1847, yn 73 oed. Bu ei weddw hefyd farw yno yn 1853, yn 73 oed. Capelygroes yw claddfa'r teulu.

Bu John, mab Jenkin a Dinah Jenkins, fyw yn Rhydybenne ar eu hol hwy. Priododd a Sarah Evans, Maesmynach, nith i Ddaniel Ddu. Bu iddynt saith o blant, a bu'r oll ohonynt yn selog gyda'r cwrdd a'r Ysgol Sul tra o hyd cyrraedd. Dyn pwyllog oedd John Jenkins, yn caru'r encilion yn hytrach na chyhoeddusrwydd, eto yn ffyddlon a gweithgar yn y capel. Benyw a thipyn o 'fynd' ynddi oedd Mrs. Jenkins; perthynai iddi dipyn o'r ddynes newydd, ac yr oedd o alluoedd uwchraddol. Dygai fawr sel dros ei henwad; yr oedd yn bur gadarn ar ei phwnc, a thaniai weithiau mewn dadl; ond yr oedd un rinwedd ardderchog yn perthyn iddi—ni chadwai hir wg a chwerwder at neb; ar ol ystorm byddai tawelwch mawr, a pob siriol deb. Pan fyddai eisiau parotoi ar gyfer rhyw gyfarfod mawr, neu wledd dê, ni fyddai neb yn fwy parod ac ewyllysgar na hi. Llawer gweinidog ar ei daith fu'n mwynhau nodded dan ei chronglwyd hi a'i phriod. Pan y clafychai yr Ymofynydd i farw yn 1879, gwnaeth Mrs. Jenkins apel daer ar ei dudalennau am ei gadw'n fyw. Credaf iddi synnu rhai pobl hen ffasiwn pan y daeth allan yn ymgeisydd am aelodaeth ar Fwrdd Ysgol Ystrad, yng Ngwanwyn 1886; etholwyd hi yn flaenaf, a bu yn aelod gwerthfawr. Bu John Jenkins farw ym Mynach Villa, Cribin, Chwefror 14eg, 1888, yn 73 oed, a'i weddw Mehefin 9fed, 1907, yn 84 oed. Arferai'r ddau addoli yng Nghapelygroes a'r Cribin, un gwasanaeth y bore a'r llall yn y prydnawn, bob yn ail.

Dilynwyd John a Sarah Jenkins yn Rhydybenne gan eu mab, John Daniel Jenkins, a'i wraig. Cofiaf am dano ef gyntaf yn fachgennyn

yn ysgol D. L. Davies (Dafis Bach), ym Mhontfanog. Bachgen llawen, bywiog a galluog ydoedd. Bu yn athraw i mi yn yr Ysgol Sul am rai blynyddau, ac yn weithgar yn y capel Dolur calon i mi, a llawer eraill, fu cysgodion diwedd ei oes. Bu farw yn yr Henardd, yn 1906, yn 45 oed.

Plant i Dinah, merch John a Sarah Jenkins, yw Mrs. Jones (Sarah), Cwmynach, a Mrs. Jones (Jane), Rhydyfran.

Bu Elizabeth, merch ieuengaf John a Sarah Jenkins, yn ffyddlon a gweithgar yn y capel am flynyddau, hyd nes yr aeth i fyw i'r Moelfre, yn wraig i David Morgan. Wedi marw ei phriod, dychwelodd i Lanmydr, ger y Cribin. Iddi hi yr wyf yn ddyledus am lawer o hanes y teulu.

Dywedir wrthyf yr arferai David, mab Thomas a Deborah Jenkins, Rhydybenne, pan yn hogyn, chwareu rhyw fath o offeryn cerdd i gynorthwyo y canu yn y capel, ar droion. Priododd ag Eleanor, ferch Glynmeheryn, ac aeth yno i fyw. Mab iddynt hwy oedd y bardd William Jenkins (Gwilym Gwenog). Palla gofod i mi fanylu ym mhellach ar y teulu hwn.

TEULU PENLAN (Capel St. Silin).

Nis gwn ddim am Lewis Jones, Penlan, yr hwn a adeiladodd y capel cyntaf am y swm o bymtheg punt, a chynorthwy i gludo'r coed i wella'r fargen; ond credaf mai mab iddo ef oedd David Jones o'r un lle, yr hwn oedd yn selog a ffyddlon iawn yn y capel. Mab i'r olaf oedd John Jones, yr hwn a anwyd yn 1820. Priododd a Margaret, chwaer John Jenkins, Rhydybenne; buont yn byw ym Mhantygwiail, ac wedi hynny ym Mhenrhiw, Dihewyd. Bu Margaret Jones farw yn Nhroedyrhiw, Cribin, Gorph. 23ain, 1874, yn 55 oed, a John Jones yn yr un lle, Medi 16eg, 1899, yn 79 oed. Bu yr olaf yn cadw ysgol am beth amser yn hen dy Llechwedd-deri Uchaf. Meibion i'r ddau hyn oedd Thomas Jones, y Gaerfoel, Cribin, a anwyd yn 1844, ac a fu farw Ion. 17eg, 1913, yn 69 oed, a J. Swithin Jones, Dowlais.

Methais hefyd gael fawr o hanes Lewis Lewis, Penlan (? Uchaf), ond dywed G. Eyre Evans wrthyf mai Lewis, Penlan, Cribin, a Margaret ei wraig, oedd hen dadcu a hen famgu yr Athro D. L. Evans, ar ochr ei fam. Pa berthynas oedd y Lewis hwn i dadcu D.L.E. nis gwn.

Hoffwn wybod rhywbeth am Sion Siencyn, Capel St. Silin. Dyn tlawd iawn ydoedd, meddai Tau Gimel, ond o'i angen rhoddodd swllt at godi'r capel. Pob parch iddo; pwy wyr na roddodd ef fwy na'r oll ohonynt yn ol ei allu?

Nis gwn ond am enwau Thomas Morgan, Caehir; John David, Cooper, Mydroilyn; Sam. Evan Griffiths, Penlon; Thomas Morgans, Cwmiago; David Davies, Moyddyn, a Mary Jenkins, Fronddu. Os y gall rhywun o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD roddi ychydig o hanes y rhai hyn i mi, bydd yn dda gennyf glywed oddiwrthynt.

Yr Ail Do.

TEULUOEDD CRUGMAEN A'R GLYDWER.

Enwir Evan Jones, Crugmaen, fel un o'r rhai mwyaf blaenllaw yn y capel tua diwedd y ddeunawfed neu ddechreu'r bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg. Mab oedd Evan Jones i John Evan, Crugmaen, a Hannah ei wraig. Dywedir i Evan Jones ddal y swydd o ddiacon, ond nis gwn am ba hyd, na dyddiad ei farwolaeth.

Yr oedd i Evan Jones ferch o'r enw Mary, yr hon a anwyd yn 1799, ac a briododd a Thomas Jenkins, wyr (fab merch) i Thomas a Deborah Jenkins, Rhydybenne. Aethant i fyw i Glyndu, ond bu Thomas Jenkins farw yn ddyn ieuanc. Mab iddynt hwy oedd y diweddar David Jenkins, Blaenwaunganol, a merch iddynt oedd Mrs. Morgan (gwraig

Evan Morgan), Moelfre. Priododd Mary eilwaith a David, mab David Evans, Troedyrhiw, Llechwedd-deri. Yn y Cribin y treuliodd Mary Evans y rhan olaf o'i hoes, a chofiaf yn dda am dani yn byw yn y ty bychan gyferbyn a'r capel. Yr oedd yn fawr ei sel dros y 'cwrdd' tra pharhodd ei nerth. Bu farw Tachwedd 10fed, 1886, yn 87 oed.

Mab i Evan Jones, Crugmaen, oedd Timothy Jones, yr hwn fu'n byw yn y Cribin am amryw flynyddau, yn ddiweddaf ym Mwlchygwynt. Yr oedd yntau yn un o ffyddloniaid y capel. Meddai gryn dalent mewn cerddoriaeth, ac adnabyddid ef fel 'Tim y Cantwr.' Efe fu arweinydd y gân am amryw flynyddoedd, a byddai galwad am ei wasanaeth yn fynych mewn capeli eraill. Aeth ei fab, David, i'r ysgol gan feddwl parotoi ar gyfer y weinidogaeth, ond bu farw o'r ddarfodedigaeth, yn ddyn ieuanc 17 oed (Mehefin 18fed, 1875).

Symudodd Timothy Jones o ardal y Cribin i gymydogaeth Llanybyther cyn cof gennyf, a bu farw Mawrth 2, 1887, yn 68 oed. Cynrychiolir y teulu heddyw gan Mrs. Jenkins, Maesnewydd (orwyres i Evan Jones) a phlant Mrs. Morgan, Glanmydr (ail-orwyrion).

Brawd Evan Jones, Crugmaen, oedd Thomas Jones. Glydwer, yntau hefyd yn noddwr o'r achos yn y Cribin. Felly hefyd ei fab, Thomas, yr hwn a briododd a Rachel, merch Thomas Jones, Cwm-mawr, Llanwenog, a Mary ei wraig (merch Bryngranod, ac un o dylwyth Dafis Castell-hywel). Yn y Glydwer y buont hwythau yn byw, a mab iddynt yw Evan Jones, sydd yn yr un lle heddyw, ac yn briod â Margaret, chwaer y Parch. Simon Jones, B.A., Aberta we.

(*Pw barhau.*)

"YSTAFELL Y PROFFWYD."

GAN ANTHROPOS.

I.

Syniad hynaws oedd hwnnw o eiddo'r Sunamees—darparu ystafell i'r proffwyd pan ddelai yno ar ei ymdaith. 'Gwnawn, atolwg, ystafell fechan ar y mur; a gosodwn iddo yno wely, a bwrdd, ac ystol, a chanwyllbren.' Dyna'r desgrifiad a roddir ohoni (2 Bren. iv. 10). Yr oedd ei lleoliad yn ddymunol. Ystafell ar y mur ydoedd, nid rhyw seler danddaearol. Ni enwir y ffenestr na'r drws; ond y mae'n debyg fod y ddau yn bod. Yr oedd y lle yn fanteisiol i weled, ac i fwynhau golygfeydd natur yn y rhanbarth hwnnw. Mor ddymunol fuasai 'ty capel' ar ddelw'r ystafell honno yn Sunem! Eithriad ydyw hynny, fel y gwyddis. Ychydig a ellir ei 'weled' o aml un—dim ond muriau y capel, neu glawdd yr ardd. Bum mewn un yn ddiweddar; nid oedd y ffenestr ond bechan, a'r oll a welid trwyddi oedd tâs o wair! Eithaf cysgod ar ddiwrnod oer, ond ar ddydd heulog, dymunol fuasai i'r 'ty capel' fod yn rhywle yr ochr arall i'r 'dâs wair.' Ystafell ar y mur oedd yn cael ei ddarpar i'r proffwyd gynt—digon o awyr iach, a golygwedd ehang. Yr

oedd ysbryd y proffwyd yn cael ei adnewyddu. a'i dduwinyddiaeth yn ymehangu, tra yn syllu ar y bryniau pell, dan ysplander yr heulwen glir. Y mae ystafelloedd di-awyr a dioleuni yn gyfrifol am lawer o gulni duwinyddol, yn ogystal a phrudd-glwyfedd ysbryd. Mor wahanol oedd yr 'ystafell ar y mur!' Tywynai haul drwy'r ffenestr, a deuai yr awelon yn eu tro, o'r 'pedwar gwynt.' Dim rhyfedd fod gweinidogaeth y proffwyd mor bynaws.

II.

'Ystafell fechan' ydoedd, wedi ei bwriadu ar ei gyfer ef ei hun. Nid lle i gynhal 'pwyllgor'—nid rhyw *general waiting room* i'r ardal i aros amser y gwasanaeth cyhoeddus. Gwyddai y Sunamees fod ar y proffwyd eisiau llonyddwch a seibiant. Yr oedd yr 'ystafell fechan' yn hollol at y pwrpas. Clywsom Dr. Hughes—o fendigedig gof!—yn dweyd fod rhai pobl dda a charedig yn gwbl dan yr argraff nas gall y 'pregethwr' a ddelo ar daith fod yn ddedwydd am bum munud ar ei ben ei hun. Rhaid iddo gael 'cwmni' o nos Sadwrn hyd foreu Llun. A phan yn brin o ddawn ymadrodd eu hunain, ond odid na wahoddir rhyw frawd parablus i ddod yno i 'ddal pen rheswm' efo'r 'gwr diarth.' Meddylfryd caredig, yn ddiau, ond mwy caredig fuasai caniatau i'r proffwyd gael ychydig seibiant gyda'u fyfyrdodau ei hun. Nid ydym yn tybied y dylai dyn fod yn 'feudwy' hollol, gartref nac oddi cartref. Tebyg fod y proffwyd a ddeuai ar ei daith i Sunem yn hoff o gymdeithas, ac yn teimlo dyddordeb dwfn a diffuant yn hanes ac amgylchiadau'r teulu fyddai yn ei roesawu o dan eu cronglwyd. Cyfarfyddent, ar adegau neillduol, a cheid ymgom felus ar yr aelwyd yn min yr hwyr. Ond, yn yr argyfwng, caffai llonyddwch perffaith yn yr 'ystafell fechan ar y mur.'

III.

Dyddorol ydyw sylwi ar ddodrefn yr ystafell honno. Beth oedd ynddi? Dim ond gwely a bwrdd, ac ystol a chanhwyllbren. Mor syml ac mor bwrpasol! Nid oedd y muriau wedi eu tryfritho gan dyrfa o gardiau cof, a marwnadau. Nid oedd yno ddarluniau echrydus ac ofnadwy wedi eu "gwneyd yn Germani." Ac nid oedd y pentan wedi ei droi yn arddangosfa i ryw fân deganau nes gwneyd y lle yn fath o *curiosity shop*. Yr oedd yno 'wely' clyd a di-damp, yn nghongl yr ystafell. Peth annifyr i'r 'proffwyd' fuasai cael ei arwain i ystafell fawr ac oer, a neb wedi bod yn cysgu ynddi er pan ydoedd y teulu yn 'cadw'r mis' y flwyddyn flaenorol. Ond nid lle i gysgu yn unig ydoedd 'ystafell y proffwyd.' Yr oedd ynddi 'fwrdd,' ac 'ystol.' Gallwn ddyfalu fod gan y proffwyd ychydig 'lyfrau,' neu ddarnau o femrwn, yn ei ysgrepan, yn nghyd ag offer ysgrifennu. Gallai wneyd ei waith yn gysurus wrth y 'bwrdd,' a'r ffenestr yn agored o'i flaen. Miwsig adar, a pheraroglau'r meusydd yn hedfan i'r ystafell ar y mur! Gwerthfawr iddo ydoedd y 'bwrdd' a'r 'ystol.' Nid oedd yno esmwythfainc, na chadair freichiau, ac nid oedd angen am danynt. Y mae *easy chair* yn burion, ambell dro, ond ni wnaed dim gwaith ynddi erioed. Onid ar fainc galed yr ysgrifennodd Bunyan ei 'Freuddwyd' anfarwol? Y mae Edmwnd Prys, yn ei gyfaddasiad o'r Salm gyntaf, yn condemnio 'stol y gwrandо.' Ond y mae'r ystol ysgrifennu yn perthyn i fyd uwch o bethau. Dim ond 'bwrdd' ac 'ystol' oedd yn yr ystafell fechan, ac eto yr oedd y proffwyd yn hollol gysurus. Credwn iddo gyfansoddi llawer dernyn cain yn yr ystafell honno. Yr ydoedd yn lle cydnaws â myfyrdod, a rhyw nwyf yn llifo iddi o'r 'nefolion leoedd.'

IV.

Ac yr oedd ynddi un peth arall nodweddiadol, nid amgen—y canhwyllbren. Awgrymai hwnnw nad oedd raid i'r 'proffwyd' fynd i'w wely yn gynar! Mae rhai pobl garedig yn tybied fod ar y 'proffwyd'

eisieu cryn lawer o gwsg. Deuant a'r ganwyll i'r ystafell yn union ar ol swper. 'Mae'n debyg y carech chwi gael mynd i'ch gwely, a rhai lled gynar ydym ninnau. William! a wnewch ddangos y *room* i'r pregethwr?'

Ond yr oedd y Sunamees yn deall athroniaeth y pwnc yn llawer gwell. Y mae meddwl ac enaid y 'proffwyd' ar ddihun—yn fwy felly ar nos Sabboth nag unrhyw adeg o'r braidd. Nis gall roddi cwsg i'w amrantau. Gellid dweyd am dano, fel y dywed Islwyn—mai 'canol nos yw canol dydd ei ardderchawgrwydd.' Nid dymunol ganddo ydyw cael ei osod mewn 'mesurau caethion' ar faterion o'r fath. Yr oedd yno 'ganhwyllbren' yn ystafell y proffwyd, a 'chanwyll' ynddo, yn ol pob tebyg. Nid oedd cyfnod y *lights out* wedi dod i aflonyddu ar hedd a chysur y byd. Byddwn yn dychmygu gweled y 'proffwyd' yn yr 'ystafell fechan,' a'r ganwyll wedi ei goleuo ar y bwrdd. Mor dawel ydoedd pobpeth o'i amgylch. Mor falch fuasem o gael edrych dros ei ysgwydd a chraffu ar y pethau a ysgrifennai yn y distawrwydd—nos feddyliau proffwyd Duw! Mewn ystefyll bychain, neillduedig, y lluniwyd drychfeddyliau gloewaf yr oesoedd. Cyffredin ddigon oedd yr allanolion—dim ond bwrdd, ac ystol, a chanhwyllbren. Ond yr oeddynt yn ateb y diben yn ogoneddus. Buont yn gyfryngau gwasanaethgar i ryw 'broffwyd,' ac y mae eu hanes wedi ei gadw yn memrwn y 'Brenhinoedd.' Diflannodd gogoniant gorsedd a llys, ond erys y 'goleuni mwyn' yn yr 'ystafell fechan' o hyd.

V.

Ceir rhyw amlinelliad o honi yn y dyddiau hyn mewn ambell 'dy capel'—ambell un! Rhyw 'Sunamees,' fel rheol, sydd yn gofalu am dano, ac y mae yn deall ei gwaith, ac yn deall anianawd y 'proffwyd'—bach neu fawr—a ddelo yno ar ei hynt. Wedi gweinyddu arno yn dirion, gwelir hi yn ymneillduo, ac yn ei adael yn y 'parlwr bach' yn nghwmni llyfr, a'r ganwyll yn oleu ar y bwrdd. Nid rhyw 'bwt o ganwyll' a fydd honno, ond un y gellir dibynnu ar ei gwasanaeth am rai oriau. Dyna'r 'ystafell fechan' y carwn aros ynddi, a melus ydyw ein myfyrdod am dani ar ol myned i ffwrdd.

VI.

Drychfeddwl y Sunamees oedd yr ystafell fechan a'i dodrefniad. Un o chwiorydd meddylgar yr Hen Oruchwyliaeth ydoedd hi, a gresyn na chawsai ei disgynyddion yr un cyfleusdra dan yr oruchwyliaeth presenol. Ond y 'brodyr' sydd yn trefnu pethau o'r fath, ac nid oes nemawr farddoniaeth yn eu cynlluniau hwy. Y mae arch-adeiladwyr y gwahanol enwadau yn medru gwneyd ystafelleedd mawr ac ehang, yn burion; ond nid oes ganddynt ddim dirnadaeth am yr 'ystafell fechan ar y mur.' Cyn y ceir honno, rhaid diddymu y 'pwyllgorau,' a'r 'cyfarfod brodyr,' ac ymddiried y gorchwyl yn ei holl fanylion i'r 'Sunamees.'

YR HEN NYTH.

Hoff nyth! mae y ddau hen aderyn
A'i cododd wrth ddechreu eu byd,
Er's tro wedi cymryd eu hedyn,
A'r cywion ar wasgar i gyd!

Eilir.

ELFENNAU GWIR LWYDDIANT.

Nid hawdd yw dweyd yn gywir yr hyn a ystyrir wrth wir lwyddiant, ac y mae'n amlwg nad yr un yw yng ngolwg pawb. Er mwyn iawn drin y pwnc rhaid cloddio at sylfaen bywyd ei hunan, a cheir gweld fod ein syniad am lwyddiant yn gorffwys ar ein syniadau am fywyd ac am y bydysawd o'n hamgylch. Mae cam-ddealltwriaeth ar y pwnc wedi arwain i lawer cweryl poenus cyn hyn ; ac onid methiant i gytuno beth yw llwyddiant, yn ei ystyr ddyfnaf, sydd yn gyfrifol am yr alanas ofnadwy sydd wedi gorddiwes ein daear heddyw ?

Yn ol syniadau gwyddonol, y planhigyn neu'r milyn mwyaf llwyddianus yw'r un sydd, yng nghydymdrech galed bywyd, yn medru cadw ei hun, ac adgynhyrchu ei ryw yn oreu. 'Y trechaf treisied a'r gwannaf gwaedded' yw'r rheol ym mharthau isaf bodolaeth. 'Goroesiad yr addasaf, o'i gyfieithu i'r Gymraeg, yw deddf y byd llysieuol ac anifeilaidd. Gwir fod y ddeddf greulon hon yn cael ei thymheru gan gariad a hunan-aberth, ond eto, o fanwl sylwi ar natur yn gyffredinol fe'n gyrrir i'r casgliad mai cydymdrech galed bob amser, a phoenus weithiau, yw bywyd yn ei agweddau symlaf ac iselaf.

Heb orfanylu ar y mater, cystal dweyd ar unwaith fod rhai o'r meddylwyr mwyaf heddyw yn dal mai'r un ddeddf sydd yn rheoli bywyd cymdeithas wareiddiedig drwy'r byd ag sydd yn teyrnasu yng nghreadigaeth y llysiau a'r milod, sef yw, deddf "Goroesiad yr addasaf." Haerant mae'r un gyd-ymdrech galed yw bywyd dyn a bywyd milyn, ac mae'r dyn hwnnw fedr godi ei hun a'i deulu uwchlaw y lleill mewn ystyr faterol yw'r dyn llwyddiannus, ac mai'r genedl honno a ennill nerth a chyfoeth drwy rym arfau yw'r genedl i'w hedmygu a'i hefelychu. Mewn gair dyna faen prawf llwyddiant 'gallu materol.'

Ym mywyd cyffredin y byd, dywedaf eto, y gallu materol hwn sydd yn cynrychioli llwyddiant. Aur yw arwyddlun gallu daearol.

"Am aur y mae ymorol :
Heb yr aur bydd pawb ar ol."

Darllenner y degau o lyfrau a'r cannoedd erthyglau sydd wedi eu hysgrifennu i oleuo a thywys ieuenctyd y gwledydd ar lwybrau llwyddiant, a'r gwyr hynny godasant 'o ddim' i fod yn berchenogion eiddo lawer yw yr esiamplau ddelir o flaen bechgyn a merched. Nid wyf am ddibrisio golud, a gallu a gogoniant daearol. Blodau yn tyfu ar ymyl y ffordd ydynt, nid nodau i gyrchu atynt. Fel Cristionogion, gwrthun i ni yw'r Efengyl yn ol Nietzsche : "Gwyn fyd y rhai cryfion mewn rhyfel, canys hwy a etifeddant y ddaear."

Gogoneddu'r anifail yw peth fel hyn, ac yr ydym wedi cael ein dysgu fod dyn wedi codi uwchlaw yr anifail, ac yn codi yn uwch-uwch o hyd. Nid oes raid di-ystyru'r anifail sydd ynom. Pell o hynny. Rhaid i bob dyn, i ddechreu, fod yn anifail da ; neu yn hytrach dylai anifail da, o dan ddisgyblaeth lem, fod o fewn pob dyn. Dylem ladd y bwystfil o'n mewn, ond am yr anifail, nis gallwn fyw hebddo :

"Move upward, working out the beast,
And let the ape and tiger die."

Yn awr, beth yw'r elfennau hynny mewn dyn sy'n peri iddo dra rhagori ar yr anifail, ac yn ei wneuthur yn fod uwchraddol—'ychydig yn is na'r angylion'? Neu mewn geiriau ereill,

beth sydd yn nodweddu y *type* uchaf o ddyn y gwyddom ni fel Cristionogion am dano? Dod o hyd i deithi cymeriad y dyn hwn yw darganfod elfennau gwir lwyddiant.

Oblegid ffurfio cymeriad o'r fath yw nôd uchaf bywyd yn ol y ddelfryd Gristionogol, ac yn wir yn ol syniadau moesol uchaf yr oes. Credwn hefyd mai byw yn ol safon y ddelfryd hon ddwg fwyaf o wir ddedwyddwch i ddynoliaeth. Ac y mae'r dyn sydd wedi byw'r bywyd uchaf a ddedwyddaf wedi cael o hyd i ddirgelwch gwir lwyddiant. Er mwyn cyrraedd y bywyd delfrydol hwn, rhaid i'r corff, a'r meddwl, a'r enaid gydweithredu mewn cydgord perffaith. Wrth sylwi ar y drindod hon sydd yn cyfansoddi'r dyn, a'r modd y gweir cynghanedd bywyd drwy eu cydweithrediad, cawn o hyd i'r nodweddion hynny sydd yn gwneud dyn yn fod sydd o hyd yn

" Dringo i gadair angel."

Yn gyntaf, rhaid gofalu am iechyd y corff. Weithiau etifedda'r plentyn gorff eiddil ; ac y mae ei rieni, drwy anwybodaeth neu ddamwain, wedi amddifadu'r plentyn hwn ar y dechreu o un o elfennau hanfodol llwyddiant. Mae corff eiddil, afiach yn ffynhonell poen a phryder parhaus ; y mae'n faen tramgwydd parhaus ar lwybrau bywyd beunyddiol ; ac y mae cysgod ei haint a'i afiechyd yn aml yn ymledu dros y meddwl, ac yn ymgripio hyd yn oed dros derfynau yr enaid ei hunan.

Modd bynnag, y mae natur, yn ei charedigrwydd a'i doethineb, wedi ffurfio y baban yn lanach o frychau ei rieni nag y tybiwyd gan lawer, a thrwy feithriniaeth synwyrol a gofalus, gellir rhoddi i bob plentyn bron a enir i'r byd drysor amhrisiadwy iechyd.

Ond, y mae hanes yn cofnodi bywydau sydd wedi bod yn llwyddiant er gwaethaf gwendidau corfforol : yn wir gellir bron dweyd eu bod wedi troi eu gwendidau yn elfennau nerth. Mae muriau mater o'n cylch wedi ymdeneuo gymaint fel ag i roddi cyfle i'r enaid lewyrchu mewn ysplander dihafal. Mae enwau fel Keats a Heine mewn llenyddiaeth yn ddigon i ategu'r hyn olygir.

Eto i gyd, rhaid maentumio fod iechyd y corff yn elfen hanfodol i lwyddiant bywyd y dyn cyffredin. Ac nid mewn ysgrif fel hon y mae sôn am y moddion goreu er sicrhau a chadw iechyd—moddion fel ymarferiad, bwyd maethlon, gorffwys, awyr bur, glanweithdra, ac yn y blaen. Ond nis gellir rhoddi gormod pwys ar y ffaith fod dedwyddwch yn dibynnu i raddau mawr ar iechyd y corff. Mae bywyd wedi ei osod ar sylfaen o fater, a dylai dyn fod yn dy wedi ei adeiladu ar y graig.

Mae corff iach, fel rheol, yn golygu meddwl iach hefyd. Ac er sicrhau cryfder meddwl, rhaid iddo yntau hefyd wrth ymarferiad, bwyd maethlon, a gorffwys ; oes, ac y mae awyr bur a glanweithdra mewn ystyr yn angenrheidiol i'r meddwl hefyd. Y mae syniadau pur a glân yn ychwanegu nerth moesol a meddyliol.

Nis gellir rhoddi gormod o bwys ar ddiwylliant meddyliol ; mae bodolaeth cyfundrefnau addysg cenhedloedd y byd yn ategu hyn. Bu amser, a hynny heb fod ymhell yn ol, pan gyfyngid moddion addysg i'r ychydig. Erbyn hyn, mae pob gwlad wareiddiedig wedi dod i addef mewn ffordd ymarferol y dylid diwyllio meddwl pawb. Mae addysg wedi dod yn werinol, a heddyw gwireddir yn fwy nag erioed yr hen ddiharebion Cymreig—

" Goreu arf, arf dysg."
" Nerth gwlad, ei gwybodau."

Rhaid i bob plentyn gael addysg, os am fod yn arfog i wynebu'r byd. Nid yw'r eithriadau a gofnodir o blant di-ddysg a di-fantais yn codi i binaclau uchaf llwyddiant, ond profi'r rheol. Caniateir gan holl broffeswyr addysg y dyddiau hyn

mai'r gyfundrefn oreu yw honno sydd yn galluogi plentyn i *ddysgu ei hun*. Ac nid o fewn muriau ysgoldy yn unig y gellir gwneyd hynny. Ond nid ein hamcan yw ysgrifennu ar bynciau addysg.

Eto, nid cyrraedd gwybodaeth yw nôd uchaf bywyd; nid yw gwybodaeth ond un o elfennau llwyddiant. Ar ei phen ei hun, dichon i hon fod yn dra pheryglus. Nid oes wlad fwy cyfoethog o wybodaeth na'r Almaen, ac wele'r byd yn oddaeth o'i herwydd. Ofnadwy beryglus yw gwyddoniaeth ar ei phen ei hun, a gwae'r wlad a'i maco ar draul esgeuluso doethineb a rhinwedd. Mwy pwysig na gwybodaeth, a mil mwy grymus yn y pen draw yw'r pwerau moesol sydd yn aros yng nghwsg yn aml, fel rhaiadrau rhewedig, ar gyffiniau yr enaid dynol, yn aros i heulwen cariad cyffredinol i'w toddi'n ffrydiau o nerth anorfod. Y galluoedd moesol hyn sydd yn tarddu o ffynhonau cydwybod ac ewyllys, hwy yw'r galluoedd sydd yn gwneud dyn yn ddyn, a chenedl yn genedl. Hwy sydd yn ein codi o'r llaid materol, lle'r ymdrybaedda ymlusgiaid a milod, i dir yr ysprydol, i gyrraedd awelon sydd yn chwythu o gopäon y tragwyddoldeb. Y mae'r galluoedd hyn yn elfennau hanfodol llwyddiant, yn yr unig ystyr wirioneddol ellir rhoddi i'r gair. Mae gofal, cywirdeb, darbodaeth, cynhildeb, yn dod i mewn, ac yn ymgymysgu a'r ffrydiau moesol yma, ac yn cyd-redeg i ffurfio'r cymeriad goreu, ond nid ydynt hwy yn elfennau digonol i greu ffrwd y bywyd uwch. Mae gonestrwydd a geirwiredd yn bwysig, ond heb y cariad cyffredinol sydd i doddi'r oll yn un, nis gellir dweyd ein bod wedi cael y cymeriad perffaith; ffurfiad hwn yw gwir amcan bywyd; hebddo nid yw yr hyn a eilw'r byd yn llwyddiant ond oferedd; efydd yn seinio neu symbal yn tincian.

Mae'n ddigon posibl i fywyd arlywydd yr Unol Dalaethau fod yn llwyddiant, ond nid yw'r ffaith ei fod wedi cyrraedd y safle yn brawf o hynny. Mae ambell filiwnydd yn ddyn da yng ngwir ystyr y gair, ond nid ei aur yw ei ddaioni. Mae'r bardd wedi codi i uchaf-bwynt bri, a'i ogoniant yn disgleirio drwy bum cyfandir, ond dichon mai aflwyddiant fu ei fywyd.

Mae'n ddigon posibl i'r bythynwr tlawd ar lethr llwm y mynydd edrych yn ol ar yrfa faith ei oes a dweyd yn wirioneddol, 'Wele, oes o lwyddiant perffaith.' Nid oes ganddo fawr o bethau'r byd hwn, ond y mae wedi mwynhau iechyd di-dor y mynyddau, wedi porthi ei enaid drwy ei oes ar ddoethineb yr Un Llyfr mawr ddihysbydd, ac y mae wedi caru dyn a charu Duw a'i holl galon yn ystod ei hir flynyddau. Y mae ef wedi cael gafael yn y goreu mewn bywyd, oblegid 'Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd; a gwybodaeth y sanctaidd yw deall.'

Nid oes eisieu diystyru golud, ac y mae'n naturiol i bob dyn iach i ddyheu am allu daearol, ac nid oes lawer o bethau melusach mewn bywyd na chanmoliaeth onest eu cyd-ddynion. Dylai addysg plant fod yn ymarferol, a dylai dynion fyw bywyd iach a naturiol, a meddwl a gweithredu mewn modd ymarferol. Ar yr un pryd ni ddylid colli golwg ar y ffaith mai magu cymeriad uchel yw amcan pennaf bywyd y dyn unigol; dyna'r unig wir lwyddiant teilwng o'n holl ymdrech i ymgyrraedd ato. Maes yr enaid yn unig sydd deilwng o driniaeth barhaus. Yn y pen draw nid oes lwyddiant ar wahan i lwyddiant ysprydol. Nid oes wir wareiddiad ond sydd yn arwain dynoliaeth o fyd o sylwedd i fyd eang yr ysprydol. Dyma'r unig wareiddiad sydd i ennill y byd: 'Gwyn eu byd y rhai addfwyn, canys hwy a etifeddant y ddaear.'

SARNICOL.

YR *ENGINE* AR WYLLT.

(Stori i'r Plant.)

Fe ddealla pawb beth olyga'r gair *engine*, ond nid wyf mor sicr y byddai 'peiriant ar wyllt' yn ddealledig gan bawb. O leiaf, dyna fel y byddaf fi yn Cymreigio, '*Run away Engine*.' Adroddir stori am *Engine* yn yr Amerig yn rhedeg yn wyllt, ond gwyddom fod peth tebyg yn dygwydd yn Lloegr ac yn Nghymru hefyd. Ond gadewch ini geisio adrodd y stori. Ceisiwn gan y darllenydd ieuanc i ddychmygu tipyn. Dacw stesion fechan yn nghanol y wlad, heb yr un tŷ yn agos. Mae'r stesion nesaf ryw 15 milltir i ffwrdd Llinell sengl sydd yma, a pha un a edrychir i fyny neu i waered mae'n ymgolli o'r golwg yn nghysgod y coed pinwydd mawrion sy'n ymgodi ar bob tu, a bron yn cydgwrdd i fyny. Nid oedd ond pedwar trên y dydd, ac ychydig iawn o deithwyr. Gellwch feddwl mai tawel a marwaidd oedd hi ar y gwr ieuanc oedd yn gofalu am y stesion, am y *signal*, ac am y telegraff—tri gorchwyl i'r un dyn. Safai y gwr ieuanc ar y *platform* un diwrnod mewn math o ddwys fyfyrdod, pan yn ddisymwth y clywodd glic y telegraff. Gwyddai mai cenadwri o'r stesion nesaf oedd. Dyma'r genad: '*Engine* ar wyllt ar y lein. Trowch *switch* i 40 gael myned ar y *siding*.' "40" oedd y trên nesaf i ddod i fewn, ac yr oedd ei amser i fyny mewn ychydig funydau, o gyfeiriad arall. Fe drodd y *switch*, ac yna ceisiodd feddwl sut y gallai stopio'r *engine*.

Yn awr, tra mae ef yn ceisio meddwl, gadewch i ninau feddwl am yr *engine* sydd ar wyllt. Chwi ddeallwch y fath beth peryglus yw *engine* ar wyllt. Mae'n rhuthro, hiltar heltar, sciltar sceltar, ar hyd y lein, gyflymach, gyflymach, heb neb i'w chyfeirio, neb i'w rhwystro, rhyw allu dall, dychrynllyd, yn ymwthio 'mlaen, nes cwrdd, feallai, a thrên arall, neu ddyfod i wrthdarawiad a rhywbeth a'i tafla oddiar y lein. Mae'n rhwym o wneud rhyw niwed mawr naill ai iddi ei hun neu i rywbeth arall, os na ellir gosod *stop* arni. Beth sy'n gwneud '*Engine* ar wyllt' mor beryglus?

Nid yw *Engine* ddim yn beth drwg o honi ei hun yn sicr. Nac yw. Mae yn un o'r creadigaethau mwyaf rhyfeddol, mwyaf defnyddiol, mwyaf arddechog a ddyfeisiodd meddwl dyn erioed. Nid wyf fi yn gweld un o honynt heb deimlo math o arswyd ac edmygedd yn ei bresenoldeb. Mae mor gryf, mor wasanaethgar—yn gwneud yn gywir yr hyn orchymynir iddi. Ydy; mae'r *engine* yn ardderchog pan o dan lywodraeth—cyhyd ag y bydd rheswm a deall yn cyfeirio a llywodraethu.

Yr oedd y '*Run-away Engine*' yn beryglus am nad oedd dan reolaeth. Cychwynodd yn ddall, heb un deall i'w chyfarwyddo, a'r oll allai wneud oedd rhuthro 'mlaen gyflymach, gyflymach, nes byddai ei gallu wedi ei weithio allan. Yr oedd yn beryglus iddi ei hun ac i bob peth ddaethai ar ei ffordd. Yr oedd ei holl allu aruthrol yn ei brysio at ryw alanastra. Yn lle bod yn allu i helpu trodd i fod yn allu i ddinystrio, yn unig o ddiffyg rheolaeth, o ddiffyg rhywun i roi cyfeiriad

Ac eto, nid yw '*Run-away Engines*' yn bethau dieithr iawn yn unrhyw wlad. A welsoch chi rywun mewn natur ddrwg erioed? A fuoch chi eich hunan erioed mewn cymaint natur ddrwg na wyddech beth oeddech yn wneud? Mor ddrwg, cyhyd ag y parodd, nad allech wrandaw ar un rheswm nac un esponiad? mor ddrwg fel y gallech daro unrhyw un a ymyrai a chwi—hyd yn oed eich cyfaill goreu?

Clywais am dad, yr hwn yn ei natur ddrwg a darawodd ei fachgen bach fel yr aeth yn wallgof. Darllenwn weithiau am ddyn mewn pang o natur ddrwg yn lladd ei wraig!

Yn mhen tipyn mae'r nwyd yn arafu, yn debyg fel mae'r ager yn y *boiler* yn mhen tipyn yn treulio ymaith. Mae y rheswm a'r synwyr a'r teimlad da yn dod yn ol, a'r gyriedydd yn esgyn ar yr *engine* drachefn. Dechreua'r dyn ymholi—sut y gallaswn wneud peth mor farbaraidd? Mae'r bachgen yn gwenu eto. Gŵyr mor ffol oedd, a metha ddeall sut yr aeth i'r fath natur. Fel mae gore'r lwc nid yw wedi gwneud niwed mawr i neb. Ond gellwch weld beth allai Tymer *ar wyllt* wneud. Tra pery'r ffit, y mae pob hunan-lywodraeth ar goll, pob rheswm wedi diflanu; mae'r dyn, a phawb o'i gylch, at drugaredd gallu dall y nwydau.

Weithiau, meddienir cenedl gyfan gan un o'r nwydau hyn. Sut arall allwn ni gyfrif am y rhyfel ofnadwy presenol! Ond gadawn hynyna heb ychwanegu.

Gofyniad a gyfyd yn naturiol yn awr yw—a stopiodd y dyn yr *Engine*? Wel, wedi meddwl yn ddwys a bron mewn anobaith, sylwodd ar y rhaffau ar y *platform*, ac yn union meddyliodd—pe gallwn i glymu y rhaff o un ochr i'r llall; ond a oes amser? Gweithiodd fel tri dyn—clymodd y rhaff wrth un o'r pinwydd yr ochr hyn, ac yna wrth un yr ochr draw. Gwnaeth hyny drachefn a thrachefn—yn groes i'r lein. Parhaodd nes oedd yr *Engine* ar ei warthaf. A ddaliai y rhaffau? Torodd yr *Engine* drwy y cyntaf, a'r ail, a'r trydydd. Ar hyny gwelid yr *Engine* yn arafu. Cyn cyrhaedd yr olaf yr oedd y gyriedydd wedi esgyn yr *Engine*, wedi gosod ei law ar y trosol, ac yn rhoi cyfeiriad.

A dyma wers arall—mae pob rhwystr ddodir ar ffordd y *Run-away Engines* yn help i'w stopio. Nid oes ond eisieu treio. Gosoder un meddwl da, ac yna un arall, un weithred dda ar ol y llall yn groes i'r lein. Na roir i fyny, na anobeithier os methir y tro cyntaf. Ymdrech a ddwg lwyddiant dim ond dal ati. A chofiwn wrth lywodraethu ein hunain, byddwn trwy ein esiampl yn helpu eraill i hunanlywodraeth.

'Gwell yw'r neb a reola ei yspryd na'r hwn a enillo ddinas.'—Diar. 16: 32.

F.

PRIODASAU.

SUL, MAWRTH 26, yng Nghapel Undodaidd Merthyr Tydfil, gan y Parch. D. Cellan Evans, y gweinidog (yn mhresenoldeb y Cofrestrydd), Mr. Philip Evans, Manager Co-operative Stores, Dowlais, a Jane Davies, Chapel house, White street, Dowlais.

EBRILL 15, yng Nghapel Pantydefaid, gan y Gweinidog, unwyd mewn glan briodas Mr. Thomas Evans, Cwmdyllest, â Miss Mary Hannah Evans, Blaenmene, y ddau o blwyf Llandyssul. Y bendithion goreu a'u dilyno.

EBRILL 22, yn Llwynrhydowen, gan y Parch. E. O. Jenkins, Mr. David Lloyd, Tyngruguchaf, Llanwenog, a Miss Mary Anne Lloyd, Pwllybryn, Llandyssul.

MARWGOFION.

MAWRTH 19, Mary Davies, Crugeryruchaf, Talgareg, Llandyssul—merch Mrs. Anne Davies, o'r lle uchod, ac anwyl briod Willie Lloyd Davies, 3, Pleasant view, Godreaman, Aberdar—yn 19 oed. Gadawodd mewn galar mawr briod ieuanc, mam, llystad, ynghyd a llawer o berthynasau ereill a chyfeillion. Cydymdeimlir yn fawr â hwynt—yn enwedig â'r priod—yn eu profedigaeth chwerw. Nid oes amser maith oddiar pan yr ymbriodododd y ddau, ac yn herwydd y diflasdod gynyrchir gan y rhyfel, yr oeddynt wedi oedi gwneud cartref iddynt eu hunain. Bellach wele hi wedi mynd, a'r cartref newydd heb ei ffurfio.

"Disgwyl pethau gwych i ddyfod,
Croes i hyny maent yn dod."

Ffarweliodd hi ar ol cystudd byr, ond neillduol o galed, gan adael baban bychan ar ei hol. Y nef fo dyner wrthi. Claddwyd yr lau canlynol yn Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, T. Lloyd, rheithor Talgareg, a T. James (A.), Pisgah.

Ar hwyr MAWRTH 22, trydanodd y newydd prudd trwy'r dref fod un arall o'n milwyr ieuanc wedi syrthio yn aberth tros ei wlad. Gwyddid fod ein cyfaill ieuanc, Private John Walter Evans, mab ieuaf Mrs. Evans, Rhydycais, Llanbedr, yn gorwedd yn glwyfedig yn Ysbytty Rouen. Clwyfid ef ryw fythefnos yn gynt 'Rywle yn Ffrainc,' a chafodd ei fam weddw dalu ymweliad ag ef, a chredid yr arbedid ei fywyd ieuanc, ond ar y prydnhawn uchod, hunodd yn dawel, a gorwedd ymhell o'i wlad yn naear a gysegrwyd gan waed ein dewrion. Nid oedd ond 22 oed, ond yr oedd wedi ennill serch ei deulu a'i gydnabod oherwydd ei hynawsedd tawel ar bob amgylchiad. Hyd yn oed yn y ffosydd ac wedi hynny yn yr Ysbytty, yr oedd gwên ar ei wyneb, a dywedai with ei fam o feddwl cael byw i weled terfyn ar yr alanas ofnadwy—'My discharge sheet will be white.' Dyna nodwedd ei fywyd ieuanc a blaenffrwyth ein haberth ni tros ryddid a chyfiawnder, ac anwylir ei goffa yn y dref ac yn yr ardal, yn yr eglwys ac ar yr aelwyd gartref. 'Melys yw marw tros ein gwlad,' medd y bardd, ond erys y graith wedi'r clwyf. Gadawodd fam weddw, brodyr a chwiorydd, heblaw perthynasau ereill, i wylo eu colled. Ar brynhawn Sul, Ebrill yr ail, traddodwyd 'pregeth goffa' iddo yn Eglwys Brondeifi, gan y Parch. T. O. Williams, B.A., oddiar y geiriau a welir yn Llyfr Ezeciel xvi. 6: 'A phan dramwyais heibio iti, a'th weled yn ymdrabaeddu yn dy waed, dywedais wrthyt yn dy waed, Bydd Fyw!' Yr oedd yr adeilad yn orlawn, canys doi cyfeillion o bell ac agos i gydymdeimlo a'r teulu, ac i gyd-alaru am ein cyfaill ieuanc, hynaws, a thyner. Arosed Duw'r diddanwch gyda'r fam a'r teulu yn eu colled a'u galar.

MAWRTH 27, wedi cystudd maith, yn 83 oed, Margaret Williams, Glyn, Drefach, Llanwenog, gweddw y diweddar John Williams, Tangraigfach, o'r un plwyf. Claddwyd ym mynwent Capelybryn, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, gyda chynorthwy y Parchn. L. Williams a D. Evans. Gadawodd bedwar o blant—un mab a thair merch—ynghyd ag amryw wyrion i alaru'n ddwys ar ei hol. Y maent oll, er hyny, wedi cyrhaedd addfedrwydd oedran, ac mewn amgylchiadau cysurus iawn. Boed iddynt nerth i alaru'n gymedrol, ac i ymbaratoi ar gyfer cael ail-gyfarfod dedwydd lle na bydd raid ymadael mwy.

MAWRTH 27, yn 27 mlwydd oed, Walter Ewart Thomas, 66, Windmill terrace, St. Thomas, Abertawe, a chladdwyd y dydd Sadwrn dilynol yn Nghladdfa Gyhoeddus Danygraig. Yn absenoldeb y gweinidog, y Parch. Simon Jones, yn Ffrainc

gyda'r adran feddygol y Groes Goch, gweinyddwyd yn y ty ac yn y gladdfa gan y Parch. D. G. Rees, Gellionen, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Mr. Richards, C.M., Cwmbwrla. Yr oedd yr ymadawedig yn fab i Mr. a Mrs. Thomas, o'r cyfeiriad uchod. Fel ei dad, yr oedd yn gwasanaethu cwmni rheilffordd y Midland, ac yr oedd yn un a berchid yn fawr iawn gan ei gyd-weithwyr, yr hyn a amlygwyd ar ddydd ei angladd gan blethdorchau o flodeu a ddanfonwyd gan yr Associated Society of Locomotive Engineers and Firemen. Teimlir y golled yn fawr ar ei ol yn yr Eglwys Undodaidd yn Abertawe, lle'r oedd yn aelod ffyddlon a selog. A phan y byddai yn nghwrs ei waith yn gorfod myned i fynu i Birmingham a threfi ereill yn Lloegr dros ddydd Sul, fe fyddai ein brawd ieuanc yn chwilio allan am eglwys o'i enwad ei hun i addoli ynddi. Yn y modd yma y bu yn wrandawr mynych ar y Parch. J. M. Lloyd Thomas, a gweinidogion ereill yr enwad yn y Midlands. Cymerai dyddordeb anarferol, i leygwr, mewn pynciau duwinyddol a chrefyddol. Bu fyw fywyd prydferth a glan, a pherchid ef gan bawb a'i adwaenai. Er mai Seisneg yn benaf ydyw iaith y teulu, eto y mai yr YMOFYNYDD wedi bod yn ymwelydd cyson yno er ys dros ddeunaw mlynedd; ac â cydymdeimlad ei ddarllenwyr allan i'r tad a'r fam, a'r unig chwaer, yn eu galar a'u colled anadferadwy.

MAWRTH 28, yn 2½ mlwydd oed, Stanley Morgans, anwyl blentyn Thomas Morgans, Penlanganol, Llanwenog. Claddwyd ym mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. E. Glyn Edwards, a chynorthwywyd gan y Parchn. L. Williams a J. Davies.

EBRILL 1, yn 19 oed, 'rywle yn Ffrainc,' Scout Tom William Jones, 16th Welch Regiment, mab i William J. a'r diweddar Sarah Jones, Clifton Hill, Pontshân, Llandyssul. Nis gellir llai na theimlo'n drist a hiraethlon wrth feddwl fod un a adwaenem mor dda wedi mynd fel na cheir ei weld yma byth mwy. Bu farw'n ieuanc, a bu farw tra'n ymladd dros ryddid ac iawnder, ac yn erbyn gormes ac yspryd cas milwriaeth fel y mae wedi ei feithrin yn yr Almaen. Yr oedd Tom yn un o ffyddloniaid Ysgol Sul y Llwyn er yn blentyn, ac yn gynar derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys. Yr oedd wedi rhoi ei fryd ar y weinidogaeth, ac wedi mynd i Ysgol Ramadegol Ceinewydd, er parotoi ei hun am fynediad i un o golegau'r enwad, ond yn mis Chwefror, 1915, ymunodd a'r fyddin er amddiffyn ei wlad yn ei dydd blin. Yn gynar yn Rhagfyr diweddaf danfonwyd ef i Ffrainc, ac yno y bu hyd y diwedd. Gadawodd mewn galar dad, brawd, tair chwaer, a llawer o berthynasau ereill a chyfeillion. Hwyr Sul y Pasc cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol iddo yn y Llwyn. Yr oedd y capel yn orlawn—pobl wedi dod o bell ac agos i ddangos cydymdeimlad a thalu gwarogaeth. Pregethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, oddiar Ioan xv. 13.

'Cawn gwrddyd yn y nef.'

EBRILL 5, yn 29 mlwydd oed, Mary Richards, merch Mrs. Eleanor Richards, Pantyronen, ger Cwrtnewydd. Dechreuodd iechyd yr ymadawedig wanychu tua blwyddyn yn ol. Ar wasanaeth mewn fferm yn yr ardal yr ydoedd, ac wedi bod yn yr un lle am flynyddoedd; ond daeth adref rai misoedd yn ol gan obeithio y byddai i'w hiechyd gryfhau, ond nid felly y bu; gwanychu wnaeth hyd y diwedd. Dygai y rhai y bu ar wasanaeth ganddynt dystiolaeth uchel iddi fel un oedd yn gwneyd ei gwaith yn ffyddlon. Yr oedd yn aelod o eglwys Capelybryn, ac yn selog gyda'r achos. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn mynwent Eglwys Llanwnen. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. Mr. Jones, ficer. Gadawodd fam, un brawd, a thair chwaer, mewn galar mawr ar ei hol.

EBRILL 10, ar ol cystudd hir ond tawel, bu farw James Thomas, Tyngrug, yn nhy ei ferch yn Maesllwyd, Llanwenog, yn 84 mlwydd oed. Treuliodd ei oes faith yn yr un ardal, a pherchid ef gan ei gydnabod fel gwr tawel ac heddychol. Bywyd tawel, didwrw, oedd ei fywyd, ac egwyddorion syml oedd ei egwyddorion ef. Ymarferol oedd ei grefydd, a nodweddid ei fywyd ymhob cylch gan ryw symlrwydd naturiol. Amaethwr oedd wrth ei alwedigaeth, a gellid cymhwyso ato eiriau Elfed :—

'Ba angen beddargraff, ond hyn—
Amaethwr Cymreig, dyna'i gyd.'

Yr oedd yn un o sylfaenwyr yr Eglwys Undodaidd yng Nghwmsychbant, a bu yn ffyddlon iddi tra caniataodd ei iechyd. Yr oedd ei briod anwyl wedi ei ragflaenu ychydig, a gadawodd yntau feibion a merched, brawd ac wyrion, heblaw perthynasau ereill, yn eu galar o golli tad tyner a chyfaill mwyn. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol, ym mynwent Capelycwm. Pregethwyd ar yr achlysur yn y capel gan y Parch. T. O. Williams, a chynorthwywyd yn y tŷ gan y Parch. E. O. Jenkins, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. Arthur Thomas.

EBRILL 17, wedi nychdod hir, yn 74 mlwydd oed, David Evans, Pantygogle, Llanllwni. Claddwyd yn mynwent Eglwys y plwyf, a gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y tŷ gan y Parch. J. Davies, gyda chynorthwy y Parchn. L. Williams, a Spencer Jones, B.A., Aberduar. Gadawodd yr hen frawd bump o blant ac amryw wyrion i alaru ar ol un a ymdrechodd ymdrech deg ar eu rhan mewn modd gonest a didwyll. Bu yn aelod ffyddlon o'r eglwys yn Alltyplacca am flynyddoedd lawer. 'Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn megys y mae Efe yn gyfiawn.'

MANION AC HANESION.

CAPELYBRYN.—Mae teulu y diweddar Thomas Jones, arwerthwr, Cwrtnewydd, wedi anrhegu yr eglwys hon ag *organ* brydferth a chostfawr. Mae y teulu yma wedi bod yn garedig iawn i'r eglwys hon ar hyd y blynyddau. Mae eu tŷ wedi bod yn agored i bregethwyr a dieithriaid eraill i gael lluniaeth a lletty pan yn ymweled â'r eglwys ar achlysuron neillduol. Pryd bynag y mae yr eglwys wedi bod mewn angen am rywbeth, y maent hwy wedi bod gyda'r mwyaf parod i gyfranu tuag at ei gael, ac y mae amryw o bethau yn meddiant yr eglwys heddyw sydd wedi cael eu rhoddi gan y teulu hwn. Rhodd Mr. D. Martin Jones yw y Llestri Cymun Arian (*Silver Individual Communion Set*) sydd gan yr eglwys. Dyma rodd arall eto oddiwrthynt, mwy nag un o'r rhai blaenorol. Gwerthfawroga y gynulleidfa y rhodd hon yn fawr iawn; a Sul, Ebrill 16eg, pasiodd yr eglwys bleidlais o ddiolchgarwch iddynt am dani, gan ychwanegu eu bod yn dymuno y bydd i Mrs. Thomas Jones, yr hon sydd yn glaf er's misoedd, gael adferiad iechyd buan, ac y cant ei gweled yn alluog i ddod i'r eglwys i fwynhau gwasanaeth yr *organ*.

[Oherwydd diffyg gofod, gorfodwyd arnom adael llawer o nodion dyddorol allan. Erfyniwn ar ein gohebwyr caredig i fod mor fyr a chryno ag sydd yn bosibl.—GOL.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Books illustrative of the Principles and Faith of those who find the seat of Authority in Religion not in Church or Creed but in the Mind and Conscience and Experience of Mankind.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5 Essex St., Strand, London, W.C.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank, Limited,

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £22,947,804. Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.

Reserve Fund .. £4,000,000.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1915.

	£ s. d.	£ s. d.
To Capital Paid up, viz.:—		
£2 10s. od. per Share on 1,912,317 Shares of £12 each	4,780,792 10 0	
„ Reserve Fund	4,000,000 0 0	
„ Dividend payable on 1st February, 1916	360,352 4 8	
„ Balance of Profit and Loss Account	113,597 15 2	
	9,254,742 9 10	
„ Current, Deposit and other Accounts	147,750,702 0 6	
„ Acceptances on account of Customers	9,157,601 11 9	
By Cash in Hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England		30,881,200 14 6
„ Money at Call and at Short Notice and Stock Exchange Loans ...		8,651,257 17 9
„ Investments:—		
War Loans, and other British Government Securities ...		33,046,384 18 2
Stocks Guaranteed by the British Government, &c.		481,040 5 8
British Railway Debenture and Preference Stocks		2,400,295 19 9
Colonial and Foreign Government Stocks and Bonds		962,062 7 6
Sundry Investments		1,039,650 15 7
„ Bills of Exchange		9,961,545 13 9
		88,323,438 2 8
„ Advances on Current Accounts, &c....		65,921,541 11 9
„ Liabilities of Customers for Acceptances as per contra		9,157,601 11 9
„ Bank Premises, at Head Office and Branches		2,760,464 15 11